



SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME
COMMISSIONER NORTH WALES



Cylchlythyr Newsletter

Cylchlythyr #43 SCHTh Gogledd Cymru – 17 Mai 2024
OPCC North Wales Newsletter #43 – 17 May 2024

Y CHTh yn edrych ar berfformiad yr Heddlu ar ran trigolion Gogledd Cymru

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (SCHTh) yn parhau i edrych yn graff ar waith Heddlu Gogledd Cymru mewn amryw o ffyrdd eang, ac yn ddiweddar wedi cynnal adolygiad pellach o'r Bwrdd Strategol Gweithredol chwarterol, a gymerodd le ar 8 Mai.

Yn y cyfarfodydd hyn, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) a'i dîm yn cyfarfod efo Prif Swyddogion Heddlu Gogledd Cymru er mwyn adolygu perfformiad yr heddlu yn gyffredinol, gan gynnwys yn erbyn y blaenoriaethau sydd yng Nghynllun Heddlu a Throsedd y CHTh. Yn y cyfarfod mwyaf diweddar, a gadeiriwyd gan y CHTh a'i ail-etholwyd yn ddiweddar, Andy Dunbobbin, rhoddodd y Prif Gwnstabl ddiweddariad ar berfformiad Heddlu Gogledd Cymru yn yr Arolwg Trosedd i Gymru a Lloegr

Fe aeth y comisiynydd ymlaen i archwilio'n fanwl i berfformiad yr Heddlu ym meysydd Troseddau Mewnfudo Trefnedig a Chaethwasiaeth Fodern. [Darllenwch fwy yma.](#)



PCC looks at police performance on behalf of the people of North Wales

The Office of the Police and Crime Commissioner (OPCC) continues to scrutinise the work of North Wales Police in a wide variety of ways and recently conducted a further review at the quarterly Strategic Executive Board, which took place on 8 May.

At these meetings, the Police and Crime Commissioner (PCC) and his team meet with the Chief Officers of North Wales Police to review overall Force performance, including against the priorities in the PCC's Police and Crime Plan. At the most recent meeting, chaired by recently re-elected PCC Andy Dunbobbin, the Chief Constable provided an update on North Wales Police performance from the Crime Survey for England and Wales.

The commissioner then examined in depth force performance on Organised Immigration Crime and Modern Slavery. [Read more here.](#)

CPD Prestatyn Sports yn sgorio, diolch i fuddsoddiad cymunedol

Ymwelodd Andy Dunbobbin, â CPD Prestatyn Sports (PSFC) yn ddiweddar i weld effaith gadarnhaol eu cais llwyddiannus am arian Eich Cymuned, Eich Dewis (ECED). Yn ystod yr ymweliad, yng nghwmni Cadeirydd PACT Ashley Rogers a staff PSFC, aeth Mr Dunbobbin ar daith o amgylch cyfleusterau'r clwb a gweld eu cynnydd wrth ehangu arlwy pêl-droed ieuenctid.

Diolch i gefnogaeth ECED, mae PSFC wedi prynu pyst gôl newydd ac mae'n adeiladu dau faes oedran-benodol i gynnwys mwy o chwaraewyr ifanc mewn gofodau pwrpasol, gan feithrin datblygiad sgiliau, gwaith tîm a chymuned. Gwelodd Mr Dunbobbin sut y bydd y cyllid yn hybu amgylchedd cyflawn PSFC ar gyfer selogion pêl-droed o bob oed. [Darllenwch fwy yma.](#)



Prestatyn Sports FC scores big thanks to community funding

Andy Dunbobbin recently visited Prestatyn Sports FC (PSFC) to see the positive impact of their successful Your Community, Your Choice (YCYC) funding bid. During the visit, accompanied by PACT Chairman Ashley Rogers and PSFC staff, Mr. Dunbobbin toured the club's facilities and saw their progress in expanding youth football offerings.

Thanks to YCYC support, PSFC has bought new goalposts and is building two age-specific pitches to accommodate more young players in dedicated spaces, fostering skill development, teamwork, and community. Mr. Dunbobbin witnessed how the funding will further PSFC's well-rounded environment for football enthusiasts of all ages. [Read more here.](#)

SCHTh Gogledd Cymru ym Malchder Bae Colwyn 2024

Roedd y CHTh ac aelodau o'i swyddfa yn falch o fynychu a noddi dathliad Balchder Bae Colwyn ar 12 Mai. Ymwelodd dros 200 o bobl â stondin SCHTh yn y digwyddiad bywiog i ddathlu amrywiaeth a chynhwysiant yn y gymuned. Bu'r Comisiynydd a'r staff yn ymgysylltu â'r mynychwyr, gan ateb cwestiynau a rhannu gwybodaeth am ei waith i wneud y rhanbarth yn fwy diogel i'r holl drigolion.

Mae SCHTh yn diolch i bawb a arhosodd wrth eu stondin i ddysgu mwy yn ogystal â threfnwyr y digwyddiad am ddiwrnod mor llawen.



OPCC North Wales at Colwyn Bay Pride 2024

The PCC and members of his office were proud to attend and sponsor Colwyn Bay's Pride celebration on 12 May. Over 200 people visited the OPCC's stall at the vibrant event celebrating diversity and inclusion in the community. The Commissioner and staff engaged with attendees, answering questions and sharing information about his work to make the region safer for all residents.

The OPCC thanks everyone who stopped by their stall to learn more as well as the event organisers for such a joyous day.

Brandio newydd ar gyfer SCHTh Gogledd Cymru

Ydych chi wedi gweld ein brandio newydd? Rydym yn gyffrous i lansio gwedd ffres a modern ar gyfer SCHTh Cymru.

Bwriad ein brandio newydd yw rhoi hunaniaeth weledol fywiog a chyfoes i ni sy'n cyd-fynd â dechrau tymor newydd y CHTh. Datblygodd ein Dylunydd Graffeg mewnol dawnus y brandio newydd, mae'n ddyluniad lluniaidd gyda'i liwiau llachar yn creu esthetig modern. Dilynwch ni ar ein cyfryngau cymdeithasol i weld y brandio newydd ar waith ar draws ein llwyfannau digidol.



New branding for OPCC North Wales

Have you seen our new branding? We're excited to unveil a fresh and modern look for the OPCC North Wales.

Our new branding is intended to give us a vibrant and contemporary visual identity that aligns with the start of the new term in office for the PCC. Our talented in-house Graphic Designer developed the new branding, a sleek design with its bright colours creates a modern aesthetic. Follow us on social media to see the new branding in action across our digital platforms.



SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME
COMMISSIONER NORTH WALES

Rydych chi'n derbyn yr e-bost hwn oherwydd eich bod wedi cofrestru i dderbyn ein e-byst
cylchlythyrau.

You are receiving this email as you signed up to receive our newsletter updates.

Eisiau newid sut rydych chi'n derbyn yr e-byst hyn?

Cysylltwch â ni drwy socialmedia@northwales.police.uk i ddiweddarau eich dewisiadau neu ddad-
danysgrifio o'r rhestr hon.

Want to change how you receive these emails?

Contact us via socialmedia@northwales.police.uk to update your preferences or unsubscribe from
this list.

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu
Glan y Don
Bae Colwyn
Conwy LL29 8AW

Office of the Police and Crime
Commissioner North Wales
Police Headquarters
Glan y Don
Colwyn Bay
Conwy LL29 8AW

Gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd yma:

<https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/polisi-preifatrwydd>

You can read our privacy policy here:

<https://www.northwales-pcc.gov.uk/privacy-policy>